EITEM 5 ATODIAD 2A

**Atodiad 1** Cynllunio a’r Iaith Gymraeg – Ymgysylltiad Mehefin 2016 - Crynodeb

| | Sylwadau Cyfranwyr | Crynodeb y Panel 1 Chwefror 2018 | Crynodeb y Gweithgor 13 Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|
| 1 | **Ydi’r CCA cyfredol yn ymdrin á blaenoriaethau ar gyfer yr iaith Gymraeg o ran defnyddio tir neu adeiladau? Os nad ydi o, pa faterion amgen ydych chi’n awgrymu?** | Awgrymwyd y dylai’r canllaw adlewyrchu blaenoriaethau ar gyfer yr iaith Gymraeg a gyflwynwyd mewn strategaethau iaith Gymraeg cenedlaethol a lleol. Yn benodol, dylid ystyried y chwe maes allweddol – teulu, plant a phobl ifanc, y gymuned, y gweithle, gwasanaethau iaith Gymraeg a seilwaith. Awgrymwyd y dylid adnabod ardaloedd sensitive yn ôl y canllaw a nodwyd yn yr NCT 20 allddodol a diwygiedig | Nodwyd yr angen I gryfhau’r blaenoriaethau o safbwynt amddiffyn y Gymraeg a phryderon bod y Canllaw yn declyn amhriodol I gyflawni hyn. |
| 1a | Rwyn cymryd bod blaenoriaeth I’r Gymraeg gan mai canllaw ar gyfer yr iaith Gymraeg ydi hwn? | | |
| 1b | Ydi, ond mae gwir angen cryfhau unrhyw flaenoriaethau sy’n amddiffyn y Gymraeg | | |
| 1c | Ydi. | | |
| 1ch | Gan mai mewn Canllaw mae’r iaith Gymraeg, ac nid mewn Polisi, dim ond ystyriaeth fydd yr iaith. Ni fydd ond yn rhywbeth ymylol ar gyfer datblygiad ac yn llai pwysig nag ystlumod a phethau tebyg. Pe bai ystyried yr iaith yn flaenoriaeth, byddai ar y blaen h.y. y PRIF FATER. | | |
| 1d | Dim yn siwr | | |

| | Sylwadau Cyfranwyr | Crynodeb 1 Chwefror 2018 | Awgrym o Grynodeb Amgen |
|---|---|---|---|
| 2 | **Ydi’r CCA cyfredol yn ymdrin a materion na ddylid eu cynnwys o fewn CCA? Os ydi o, wnewch chi roi manylion y materion yma?** | Ystyriodd mwyafrif yr ymatebwyr y dylai’r canllaw wahaniaethu rhwng y mathau o ddatblygiadau ac y dylid llunio cwestiynau yn unol â hynny. | Nodwyd yr angen I wahaniaethu rhwng datblygiadau diwydiannol a phreswyl; a bach a mawr.<br>Nodwyd pryder nad oedd y CCA cyfredol yn effeithiol o ran ystyried effaith ar yr iaith Gymraeg. |
| 2a | Efallai y byddai’n syniad gwahaniaethu rhwng rhai mathau o ddatblygiadau a’u trin ychydig yn wahanol – e.e. Dylsai’r set o gwestiynau (gweler isod) ar gyfer datblygiad diwydiannol (rhywbeth fyddai’n creu swyddi) fod yn wahanol I gwestiynau am stad o dai dyweder. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2b | Nac ydi, hyd y gwelir | | |
| 2c | Ydi. | | |
| 2ch | Mae’n anodd I Ganllaw fel hyn, sy’n delio a phob math o ddefnydd tir, fod yn berthnasol I bob math o ddatblygiad. Dylid ystyried cael un ar gyfer datblygiadau preswyl, ac un arall ar gyfer pob math o ddatblygiadau eraill ond wedi’I rannu’n ddau ran – datblygiadau mawr a rhai bach. | | |
| 2d | Nid o raid – yn y gorffennol mae cyndynrwydd naif wedi bod I gadw cynllunio fel petai ddim I’w wneud a iaith ac ati. | | |

| | Sylwadau Cyfranwyr | Crynodeb 1 Chwefror 2018 | Awgrym o Grynodeb Amgen |
|---|---|---|---|
| 3 | **Ydi’r CCA cyfredol ddigon clir ynglŷn â pha fath o ddatblygiad a fydd angen cael gwybodaeth amdano o safbwynt yr iaith Gymraeg?** | Cytunai ymatebwyr, ar y cyfan, fod y canllaw cyfredol yn annelwig ac nad yw’n rhoi eglurdeb I ddatblygwyr am ba ddatblygiadau sydd angen Asesiad Ardrawiad Iaith Gymraeg. Y farn oedd bod y trothwyon yn benagored a bod angen adnabod mathau o ddatblygiadau a ddylai fod yn destun asesiad. | Cytunai ymatebwyr, ar y cyfan, fod y canllaw cyfredol yn annelwig ac nad yw’n rhoi eglurdeb I ddatblygwyr am ba ddatblygiadau sydd angen Asesiad Ardrawiad Iaith Gymraeg. Y farn oedd bod y trothwyon yn benagored a bod angen adnabod mathau o ddatblygiadau a ddylai fod yn destun asesiad.<br><br>Nid oes cyd-destun cynllunio ieithyddol ystyrlon I’r Canllaw na manylion clir a defnyddiol. |
| 3a | Nid ydi’r CCA cyfredol yn dangos yn glir pa ddatblygiadau sydd angen Asesiad Ardrawiad Iaith Gymraeg sydd angen ei gyflwyno fel rhan o gais, yn arbennig y trothwyon mewn perthynas â ‘Datblygiadau/Cynlluniau Eraill’. Mae’r trothwyon yn benagored ac nid ydynt yn rhoi eglurder I ddatblygwyr yn gynnar yn y broses. Fe ddylai’r CCA newydd ddarparu trothwyon clir ynglŷn â pha ddatblygiadauddylai gynnwys Datganiad Iaith Gymraeg ac Asesiad Ardrawiad Iaith Gymraeg gan adlewyrchu yr ymagwedd bod angen I geisiadau cynllunio unigol gynnwys Asesiad Ardrawiad Iaith Gymraeg o fewn canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol. | | |
| 3b | Mae angen newid, a bod yn fwy eglur a di-amwys (fel y nodais yn yr ateb uchod) | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3c | Ydi, ar ôl yr ychwanegiadau | | |
| 3ch | Ydi | | |
| 3d | Mae'r Canllaw yn amwys iawn ar hyn o bryd. Yn paragraff A, y paragraff cyntaf o dan 'Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol', dywedir '….ar gyfer y mathau o ddatblygiad a restrir ym mharagraff 17'. O droi yn ôl I baragraff 17 nid oes unrhyw restr yn y paragraff hwn. Fel ag y mae, y mae'r cyfarwyddyd yn gamarweiniol a diffygiol. Mae angen rhestru'r datblygiadau dan sylw yn syml a diamwys. | | |
| 3dd | Mae angen deall teithi cymdeithasegol yr iaith (gweler y cyfrifiadau) a dangos sut y mae tueddiadau a welir yn mynd I gael eu harafu/hatal drwy weithredu y cynllun. Nid ymddengys bod hyn yn digwydd – dim ond gyrru ymlaen fel pe na bai problem/gobeithio'r gorau. | | |

| | Sylwadau Cyfranwyr | Crynodeb 1 Chwefror 2018 | Awgrym o Grynodeb Amgen |
|---|---|---|---|
| 4 | **Mae'r CCA yn cynnwys nifer o gwestiynau er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr I gyflwyno Datganiad Ieithyddol a Chymunedol? Ydi'r cwestiynau'n ddigon clir? A ddylid gofyn cwestiynau ychwanegol? Os ydych o'r farn bod angen newid, a wnewch chi awgrymu sut gellir newid y cwestiynau a/neu pa fath o gwestiynau sydd angen gofyn?** | Roedd dau ymatebydd o'r farn bod y cwestiynau yn y canllaw cyfredol yn ddigon eglur.<br><br>Nododd eraill fod y canllaw, fel yr oedd, yn or-syml ac o'r herwydd fod ymgeiswyr yn ateb cwestiynau heb gyflwyno tystiolaeth ddigonol.<br><br>Dylai cwestiynau fod yn benodol wrth ofyn am fanylion am y modd y bydd datblygiad yn mynd ati I warchod yr iaith. | Roedd dau ymatebydd o'r farn bod y cwestiynau yn y canllaw cyfredol yn ddigon eglur.<br><br>Roedd y gweddill o'r farn nad oedd y cwestiynau'n ddigon clir ac yn unol â'r gofyn yn cynnig awgrymiadau:<br><br>Mae angen I'r cwestiynau adlewyrchu'r blaenoriaethau diweddaraf yn lleol a chenedlaethol o safbwynt yr iaith Gymraeg.<br><br>Dylai cwestiynau ofyn sut mae'r datblygiad am wneud y canlynol I'r iaith Gymraeg: |
| 4a | Os ydi'r CCA sy'n cael ei ddatblygu yn mynd I gynnwys cwestiynau I gynorthwyo ymgymeiswyr I ymgymymryd â/cyflawni (undertake) Datganiad Iaith Gymraeg, dylid adolygu'r cwestiynau er mwyn adlewyrchu'r blaenoriaethau diweddaraf yn nhermau'r iaith Gymraeg fel y nodir mewn | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | strategaethau cenedlaethol a lleol perthnasol y cyfeirir atynt yn ein hateb I gwestiwn 1.<br><br>Dylai'r cwestiynau hefyd fod yn fwy penodol o safbwynt gwneud cais am fanylion am sut fydd y datblygiad yn ceisio diogelu, hyrwyddo a chryfhau'r iaith a diwylliant Cymraeg.<br><br>Dylai'r Canllaw hefyd ei gwneud yn glir nad oes angen I bob datblygiad ymateb I bob cwestiwn, dim ond y rhai sy'n berthnasol I'r cynnig.<br><br>Pan yn ystyried datblygiadau twristaidd, fe allai fod yn addas I gynnwys elfen sy'n annog yr asesydd I adnabod ffyrdd mae'r datblygiadau twristaidd yn defnyddio treftadaeth a diwylliant Cymreig yr ardal. | Nodwyd hefyd nad oedd rhai o'r cwestiynau'n berthnasol I bob math o ddatblygiad ac y dylai asesiadau gael eu cynnal yn annibynnol ac nid gan yr ymgeisydd, er mwyn sicrhau tryloywder. | - Diogelu<br>- Hyrwyddo<br>- Cryfhau<br><br>Dylid nodi'n glir os oes angen gwneud datganiad ar gyfer datblygiad neu beidio.<br><br>Dylid rhoi cyfarwyddyd clir o safbwynt datblygiadau twristaidd<br><br>Mae'r cwestiynau'n rhy simplistig gan arwain at atebion arwynebol heb dystiolaeth gadarn.<br><br>Ni ddylai'r ymgeisydd neu ei asiant lunio'r asesiad. Dylai'r asesiad gael ei lunio gan arbenigwyr cynllunio iaith annibynnol. Dylai hyn gael ei ariannu gan yr ymgeisydd a'I drefnu gan y Cyngor. |
| 4b | Mae'r cwestiynau a ddefnyddir yn simplistig ac yn arwain yr ymgeisydd I ddweud ie neu na fel mater o farn – heb fawr o dystiolaeth tu ôl I'r atebion.<br><br>Nid yw'n rhesymol mai'r ymgeisydd sy'n gwneud yr asesiad yn y lle cyntaf. Mae gofyn I arbenigwyr cynllunio iaith fod yn ymwneud â'r broses ac nid lleygwyr.<br><br>Dylasai'r cwestiynau fod yn gofyn am ffeithiau pendant perthnasol. Angen mwy o drafod ar hyn. | | |
| 4c | Mae'r cwestiynau'n ddigon clir a digonol. | | |
| 4ch | Ydynt | | |
| 4d | Ni ddylai'r Datganiad gael ei wneud gan yr ymgeisydd. Yn hytrach dylai'r Datganiad gael ei wneud gan rywun annibynnol a chymwys sy'n | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | arbenigwr cydnabyddiedig mewn cynllunio ieithyddol a hyn ar gyfer pob cais. | | |
| 4dd | Nid ydyw ymgeiswyr am ddatblygiadau tai yn arbenigwyr ieithyddol. Ac os bydd y cyfryw ymgeiswyr yn chwennych cael eu maen (trosiadol a llythrennol) yna maent yn mynd I gael hyd I'r ateb sy'n plesio. Dylai ymgeiswyr dalu I'r Cyngor gael rhywun annibynnol I gloriannu. | | |
| | | | |
| | | | |

| | Sylwadau Cyfranwyr | Crynodeb 1 Chwefror 2018 | Awgrym o Grynodeb Amgen |
|---|---|---|---|
| 5 | **Mae ymgymryd ag Asesiad Effaith Ieithyddolyn golygu ateb nifer o gwestiynau. Ydi'r cwestiynau'n ddigon clir? A ddylid gofyn cwestiynau ychwanegol? A ddylid cael gwared â chwestiynau? Os ydych o'r farn bod angen newid, a wnewch chi egluro'ch safbwynt gan awgrymu sut ellir newid cwestiynau a/neu pa fath o gwestiynau sydd angen eu gofyn?** | Yn gyffredinol, cytunwyd fod y cwestiynau asesu yn y canllaw yn or-syml ac nad oeddent yn berthnasol I bob math o ddatblygiad. Dylid ystyried symleiddio'r broses trwy leihau'r nifer cyffredinol o gwestiynau gan geisio cyfuno rhai cwestiynau presennol, ble bo hynny'n briodol. | Roedd dau ymatebydd o'r farn bod y cwestiynau yn y canllaw cyfredol yn ddigon eglur.<br><br>Roedd tri ymatebydd o'r farn bod y cwestiynau'n rhy arwynebol a simplistig.<br><br>Roedd tri ymatebydd o'r farn bod diffyg hygrededd I'r Asesiad gan fod disgwyl I'r ymgeisydd neu ei asiant ateb y cwestiynau eu hunain.<br><br>Roedd y gweddill o'r farn nad oedd y cwestiynau'n ddigon clir ac yn llafurus ac yn anghyfeillgar I'r defnyddiwr;<br><br>Yn unol â'r gofyn cynigwyd nifer o awgrymiadau: |
| 5a | Mae'r CCA cyfredol yn darparu 18 cwestiwn. Nid ydi pob cwestiwn yn berthnasol ar gyfer pob math o ddatblygiad ac mae hyn yn gwneud y broses asesu'n llafurus, sy'n ddianghenraid ac nid ydyw'n gyfeillgar I'r defnyddiwr.<br><br>Dylid rhoi ystyriaeth I leihau'r nifer o gwestiynau a cheisio cyfuno, lle'n addas, rhai o'r cwestiynau sy'n bodoli eisoes.<br><br>Dyma rai awgrymiadau: | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 1 Ydi'r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd neu leihad yn y boblogaeth a allai effeithio'r balans o siaradwyr Cymraeg/Saesneg yn bositif neu negyddol?<br>- A allai'r datblygiad arwain at leihad absoliwt neu gyfrannol mewn nifer siaradwyr Cymraeg? Sut allai'r datblygiad effeithio ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned?<br><br>2 Ydi'r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd mewn mudo I mewn neu fudo allan?<br>- Sut fydd hyn yn effeithio ar nifer siaradwyr Cymraeg?<br>- A fyddai unrhyw newid yn barhaol neu dros dro?<br><br>3 Ydi'r Datblygiad yn debygol o arwain at newid strwythur oed yn ardal y gymuned?<br>- A fyddai grwpiau oedran penodol yn debygol o symud I mewn neu adael yr ardal?<br>- A allai rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol dorri I lawr?<br><br>4 Ydi'r datblygiad yn debygol o gael effaith ar ansawdd bywyd y bobl leol?<br>- A allai'r datblygiad gael effaith ar iechyd a mwynderau'r gymuned?<br>- A allai gynyddu'r risg o drosedd neu drais yn y gymuned? | | Ystyried lleihau nifer y cwestiynau a chyfuno lle'n addas.<br><br>Gofyn cwestiynau am ffeithiau perthnasol pendant.<br><br>Dylai'r Ymgeisydd gyflwyno Asesiad sydd wedi'I lunio a'I arfarnu gan arbenigwyr cynllunio iaith annibynnol.<br><br>Dylai hyn gael ei ariannu gan yr ymgeisydd a'I drefnu gan y Cyngor.<br><br><br>Mae'r CCA cyfredol yn darparu 18 cwestiwn. Nid ydi pob cwestiwn yn berthnasol ar gyfer pob math o ddatblygiad ac mae hyn yn gwneud y broses asesu'n llafurus, sy'n ddianghenraid ac nid ydyw'n gyfeillgar I'r defnyddiwr.<br><br>Dylid rhoi ystyriaeth I leihau'r nifer o gwestiynau a cheisio cyfuno, lle'n addas, rhai o'r cwestiynau sy'n bodoli eisoes.<br><br>Dyma rai awgrymiadau:<br><br>1 Ydi'r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd neu leihad yn y boblogaeth a allai effeithio'r balans o siaradwyr Cymraeg/Saesneg yn bositif neu negyddol? |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 5 Ydi'r datblygiad yn debygol o gael effaith niweidiol ar fusnesau lleol a swyddi lleol?<br>- A oes potensial y gallai'r datblygiad arwain at gau busnesau – Cymraeg eu hiaith – lleol?<br>- A allai'r datblygiad greu neu fygwth swyddi lleol?<br><br>6 Ydi'r datblygiad yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd yn y gymuned (neu'r ardal ehangach)?<br>- A oes potensial I'r datblygiad gynyddu menfudiad o siaradwyr di-Gymraeg oherwydd amrywiaeth economaidd?<br><br>7 Ydi'r datblygiad yn debygol o gael effaith ar lefelau tâl/cyflog a/neu brisiau tai?<br>- A allai'r datblygiad gynyddu/lleihau lefelau cyflog oherwydd cynnydd mewn cystadleuaeth? A allai'r datblygiad orfodi siaradwyr Cymraeg lleol I adael y gymuned oherwydd prisiau tai, neu eu rhwystro rhag dychwelyd?<br><br>8 Ydi'r datblygiad yn debygol o gael effaith ar adeiladwaith lleol a darpariaeth gwasanaethau?<br>- A allai'r datblygiad fygwth neu ddiogelu ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol a/neu cyfleusterau gofal iechyd?<br>- A allai'r datblygiad fygwth neu ddiogelu siopao/swyddfeydd post/banciau/tafarnai lleol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, | | - A allai'r datblygiad arwain at leihad absoliwt neu gyfrannol mewn nifer siaradwyr Cymraeg? Sut allai'r datblygiad effeithio ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned?<br><br>2 Ydi'r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd mewn mudo I mewn neu fudo allan?<br>- Sut fydd hyn yn effeithio ar nifer siaradwyr Cymraeg?<br>- A fyddai unrhyw newid yn barhaol neu dros dro?<br><br>3 Ydi'r Datblygiad yn debygol o arwain at newid strwythur oed yn ardal y gymuned?<br>- A fyddai grwpiau oedran penodol yn debygol o symud I mewn neu adael yr ardal?<br>- A allai rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol dorri I lawr?<br><br>4 Ydi'r datblygiad yn debygol o gael effaith ar ansawdd bywyd y bobl leol?<br>- A allai'r datblygiad gael effaith ar iechyd a mwynderau'r gymuned?<br>- A allai gynyddu'r risg o drosedd neu drais yn y gymuned?<br><br>5 Ydi'r datblygiad yn debygol o gael effaith niweidiol ar fusnesau lleol a swyddi lleol? |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | orfodi rhai adrannau o'r boblogaeth allan o'r ardal?<br><br>9 A oes potensial I'r datblygiad arwain at dyndra cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol o fewn y gymuned (Gymraeg ei hiaith)?<br>- A allai'r datblygiad gael affaith sylweddol anghyfartal ar rannau gwahanol o'r gymuned?<br>- A allai danseilio gwerthoedd traddodiadol rhannau penodol o'r gymuned?<br><br>10 A oes potensial y bydd y datblygiad yn arwain at newidiadau mewn traddodiadau/diwylliant Cymreig?<br>- A allai'r datblygiad orfodi aelodau lleol o grwpiau lleol gwirfoddol/gweithgareddau/ieuenctid allan o'r ardal oherwydd diweithdra/prisiau tai uchel?<br><br>11 Ydi'r datblygiad yn debygol o gael effaith ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned?<br>- Ydi'r datblygiad yn debygol o arwain at lai o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned? Rhesymau am hyn:<br>- Siaradwyr Cymraeg yn ffurfio cyfran llai o'r boblogaeth;<br>- Newid iaith mewn rhwydweithiau cymdeithasol penodol;<br>- Diffug gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn sgil y datblygiad;<br>- Addysg; | | - A oes potensial y gallai'r datblygiad arwain at gau busnesau – Cymraeg eu hiaith – lleol?<br>- A allai'r datblygiad greu neu fygwth swyddi lleol?<br><br>6 Ydi'r datblygiad yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd yn y gymuned (neu'r ardal ehangach)?<br>- A oes potensial I'r datblygiad gynyddu menfudiad o siaradwyr di-Gymraeg oherwydd amrywiaeth economaidd?<br><br>7 Ydi'r datblygiad yn debygol o gael effaith ar lefelau tâl/cyflog a/neu brisiau tai?<br>- A allai'r datblygiad gynyddu/lleihau lefelau cyflog oherwydd cynnydd mewn cystadleuaeth? A allai'r datblygiad orfodi siaradwyr Cymraeg lleol I adael y gymuned oherwydd prisiau tai, neu eu rhwystro rhag dychwelyd?<br><br>8 Ydi'r datblygiad yn debygol o gael effaith ar adeiladwaith lleol a darpariaeth gwasanaethau?<br>- A allai'r datblygiad fygwth neu ddiogelu ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol a/neu cyfleusterau gofal iechyd?<br>- A allai'r datblygiad fygwth neu ddiogelu siopao/swyddfeydd post/banciau/tafarnai lleol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, orfodi rhai adrannau o'r boblogaeth allan o'r ardal? |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | - Gofal plant ac ati.<br>- Ydi'r datblygiad yn debygol o arwain at mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gymuned? | | 9 A oes potensial I'r datblygiad arwain at dyndra cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol o fewn y gymuned (Gymraeg ei hiaith)?<br>- A allai'r datblygiad gael affaith sylweddol anghyfartal ar rannau gwahanol o'r gymuned?<br>- A allai danseilio gwerthoedd traddodiadol rhannau penodol o'r gymuned?<br><br>10 A oes potensial y bydd y datblygiad yn arwain at newidiadau mewn traddodiadau/diwylliant Cymreig?<br>- A allai'r datblygiad orfodi aelodau lleol o grwpiau lleol gwirfoddol/gweithgareddau/ieuenctid allan o'r ardal oherwydd diweithdra/prisiau tai uchel?<br><br>11 Ydi'r datblygiad yn debygol o gael effaith ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned?<br>- Ydi'r datblygiad yn debygol o arwain at lai o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned? Rhesymau am hyn:<br>- Siaradwyr Cymraeg yn ffurfio cyfran llai o'r boblogaeth;<br>- Newid iaith mewn rhwydweithiau cymdeithasol penodol;<br>- Diffyg gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn sgil y datblygiad;<br>- Addysg; |
| 5b | Ateb tebyg I gwestiwn 4. Mae'r cwestiynau'n arwynebol a simplistig sy'n rhoi digon o le I'r ymgeisydd roi barn yn hytrach na ffaith. Hyn yn ei dro yn arwain at adroddiad heb fod yn ddi-duedd ac felly yn ddi-werth. | | |
| 5c | Mae'r cwestiynau'n ddigon clir a digonol | | |
| 5ch | Ydynt | | |
| 5d | Ailadrodd 4. | | |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | - Gofal plant ac ati.<br>- Ydi'r datblygiad yn debygol o arwain at mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gymuned? |

| | Sylwadau Cyfranwyr | Crynodeb 1 Chwefror 2018 | Awgrym o Grynodeb Amgen |
|---|---|---|---|
| 6 | **Ydi'r CCA cyfredol yn ddigon clir ynglŷn â chael menwbwn mentrau iaith lleol a chynllunwyr iaith I gynorthwyo ymgeiswyr I lunio'r cynnig a fydd yn destun cais cynllunio? Os ydych o'r farn bod angen newid, a wnewch chi egluro'ch safbwynt gan awgrymu sut ellir gwella hynny?** | Er bod dau ymatebwr yn ystyried fod y canllaw yn eglur yn hyn o beth, teimlai ymatebwyr eraill fod diffyg arweiniad ynglŷn â'r modd y gall Mentrau Iaith helpu datblygu mesurau lliniaru/gwella, ac y dylai ymgynghoriad gyda chynhorau cymuned a Mentrau Iaith fod yn rhan annatod o'r broses asesiad ardrawiad iaith. | Roedd dau ymatebydd o'r farn bod y canllaw cyfredol yn eglur yn hyn o beth.<br><br>Nododd y gweddill bod y canllaw cyfredol yn aneglur o ran mewnbwn gan<br>- Mentrau iaith<br>- Arbenigwyr Cynllunio Iaith<br><br>Nid mater o gynorthwyo'r ymgeisydd ddylai fod yma ond mater o gloriannu'r sefyllfa.<br><br>Nodwyd aneglurder yn yr atebion ynglŷn â beth yw 'menter iaith leol'.<br><br>Diffyg adnoddau ac arbenigedd gan Hunaniaith.<br><br>Gwnaed yr awgrymiadau canlynol:<br><br>Annog datblygwyr I gynnal trafodaethau gyda 'mudiadau/mentrau' iaith lleol.<br><br>Defnyddio mesuryddion a datblygu rhai newydd I gloriannu sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw. |
| 6a | Na – mae'r CCA cyfredol yn ddiffygiol mewn rhoi arweiniad ynglŷn â sut all mudiadau (enterpises) iaith lleol gyfrannu tuag at ddatblygu mesurau lliniaru a/neu gryfhau'r Datganiad Iaith a'r Asesiad Iaith.<br><br>Dylai'r CCA newydd annog datblygwyr I gynnal trafodaethau gyda mudiadau iaith lleol fel mentrau iaith er mwyn dod I ddeall arfer da cyfredol a allai effeithio ar fesurau lliniaru neu gryfhau. | | |
| 6b | Nid mater o gynorthwyo'r ymgeisydd ddylai fod yma ond mater o gloriannu sefyllfa.<br><br>Gellid gwella hyn drwy ddefnyddio mesuryddion a datblygu rhai newydd I gloriannu'r sefyllfa er mwyn ceisio cadw canrannau siaradwyr Cymraeg o fewn rhai ardaloedd fyddai'n golygu bod yr iaith yn iaith fyw yn y mannau hynny. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae hon yn drafodaeth 'fawr' ac eang na ellir gwneud cyfiawnder â hi mewn ychydig sylwadau fel hyn.<br><br>Mae'n drafodaeth sy'n codi ei phen bob hyn a hyn ac mae angen ei chael hi yn fuan eto neu ni fydd cymunedau Cymraeg ar gael I'w cadw. | | Llunio canllawiau canolog cadarn. |
| 6c | Pa fentrau iaith lleol sydd yna e.e. yn ardal Dwyfor?<br><br>Gwrthwynebwn y gair 'cynorthwyo' yn y cwestiwn gan ei fod yn rhoi'r argraff fod y cynllunwyr iaith yn rhan o dîm y datblygwr, yn hytrach na bod yn arbenigwyr annibynnol. | | |
| 6ch | Ydi | | |
| 6d | Ydi | | |
| 6dd | Dau (?) sy'n gweithio I Hunaniaith wn I ddim a oes yna yr amser a'r cymhwyster I roi mewnbwn sylweddol, heblaw dweud yr amlwg.<br><br>Dylid cael canllawiau canolog mwy safadwy – dim rhywbeth ffwrdd â hi | | |

| | Sylwadau Cyfranwyr | Crynodeb 1 Chwefror 2018 | Awgrym o Grynodeb Amgen |
|---|---|---|---|
| 7 | **Ydi'r CCA cyfredol ddigon clir ynglŷn â pha fath o amodau cynllunio neu ymrwymiadau cynllunio y gellir eu llunio I sicrhau mesurau lliniaru priodol, iawndal, a/neu fesurau gwella yn ymwneud â chynigion datblygu er mwyn cynnal neu gryfhau'r iaith Gymraeg, a sut fydd y Cynghorau yn mynd ati I gael amodau cynllunio neu ymrwymiadau?** | Cytunai'r ymatebwyr, yn gyffredinol, nad oedd digon o wybodaeth yn y canllaw ynglŷn â'r modd y dylai rhwymedigaethau cynllunio gael eu llunio, er mwyn sicrhau fod y mesurau lliniaru/gwella a gynigwyd yn cael gweithredu.<br><br>Dylid cynnwys enghreifftiau o fathau amrywiol o ddatblygiadau. | Roedd un ymatebydd o'r farn bod y canllaw cyfredol yn eglur yn hyn o beth ac un yn nodi 'I ryw raddau'<br><br>Nodwyd gan y gweddill nad oedd digon o wybodaeth yn y canllaw ynglŷn â'r modd y dylai rhwymedigaethau cynllunio gael eu llunio, er mwyn sicrhau fod y mesurau lliniaru a chryfhau a gynigwyd yn cael eu |
| 7a | Mae'r CCA cyfredol yn ddiffygiol yn nhermau arweiniad a awgrymir o safbwynt mesurau lliniaru a | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | allai fod yn berthnasol I fathau gwahanol o ddatblygiadau.<br><br>Dylai'r CCA newydd ddarparu enghreifftiau o liniaru addas a/neu mesurau cryfhau ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau.<br><br>Ni ddarperir unrhyw wybodaeth ynglŷn â sut fydd goblygiadau cynllunio mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn cael eu ffurfio er mwyn sicrhau y bydd mesurau lliniaru a/neu fesurau cryfhau a gynigir yn cael eu gweithredu fel rhan o'r hawl cynllunio.<br><br>Dylid cynnwys enghreifftiau o amodau safonol/ goblygiadau cynllunio fel rhan o'r CCA newydd er mwyn sicrhau bod datblygwyr yn ymwybodol o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ononynt yn gynnar yn y broses cynllunio. Bydd hyn yn gymorth I wella hyfywedd cynlluniau yn y camau cynnar. | Yn benodol, cynigwyd y dylai amodau cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl gynnwys amod ar gyfer datblygiad graddol dros bum mlynedd. | hystyried gan y datbygwr ac yn cael eu gweithredu.<br><br>Gwnaed yr awgrymiadau canlynol:<br><br>Dylai'r CCA newydd ddarparu enghriefftiau o liniaru addas a/neu mesurau cryfhau ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau<br><br>Dylai'r CCA newydd gynnwys enghreifftiau o amodau safonol/ goblygiadau cynllunio<br><br>Mae gwir angen mesurau cryfach.<br><br>Dylid cynnwys enghreifftiau o fathau amrywiol o ddatblygiadau.<br><br>Yn benodol, cynigwyd y dylai amodau cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl gynnwys amod ar gyfer datblygiad graddol dros bum mlynedd.<br><br>Dylid cael arweiniad canolog pendant. |
| 7b | Fel rhan o'r drafodaeth rwyn cyfeirio ati uchod mae gofyn I'r hyn sydd ei angen fod ar lefel uwch na Chanllawiau Atodol a dylid pwyso am hynny'n barhaus. | | |
| 7c | Dylai amodau Cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl (dyna pam y dywedwn yn ateb 2 fod angen Canllawiau gwahanol ar gyfer y gwahanol fath o ddatblygiad) gynnwys amod y dylai'r datblygiad ddigwydd gan wrth gam (e.e. hyd at 20%) dros gyfnod o 5 mlynedd.<br><br>Byddai hyn yn helpu I liniaru unrhyw effaith negyddol ar yr iaith. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7ch | Ydi, I ryw raddau, ond o ddarllen yr Asesiad Annibynnol o Effaith Ieithyddol y CDLl gan Hanfod, mae gwir angen mesurau cryfach. | | |
| 7d | Ydi | | |
| 7dd | Dylid cael arweiniad canolog pendant. | | |

| | Sylwadau Cyfranwyr | Crynodeb 1 Chwefror 2018 | Awgrym o Grynodeb Amgen |
|---|---|---|---|
| 8 | **A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am gynnwys y CCA cyfredol? Os oes, gwerthfawrogwn pe allech gyflwyno'r sylwadau mor glir ac mor gryno â phosibl, gan gyfeirio at rannau perthnasol o'r ddogfen (e.e. rhif paragraff)** | Dyma sylwadau eraill a wnaed:<br>• Dylai pwysigrwydd yr iaith Gymraeg yng Ngwynedd gael ei amlinellu'n eglur.<br>• Dylid rhoi ystyriaeth I effeithiolrwydd system sgorio'r CCA. Gallai'r system sgorio ymddangos yn or-syml.<br>• Dylai ardrawiad cronnus datblygiadau ar yr iaith Gymraeg gael eu hystyried fel rhan o'r broses asesu.<br>• Fel rhan o'r broses, dylid asesu ardrawiad datblygiad ar yr iaith Gymraeg mewn ardaloedd ymhellach oddi wrth safle datblygiad penodol.<br>• Dylid disodli Datganiadau Ieithyddol gydag Asesiadau Ardrawiad Ieithyddol gan nad yw Datganiadau Ieithyddol yn effeithiol. | Sylwadau:<br>Mae'r fethodoleg ar hyn o bryd yn rhoi peth arweiniad I'r cynigydd.<br><br>Mae'r system sgorio'n rhy syml<br><br>Mae'r CCA yn ystyried ffiniau cyfyng iawn o ran lle ac amser.<br><br>Rhaid cofio bod datblygiadau yn aml yn effeithio ar y sir gyfan neu ar ran helaeth ohoni.<br><br>Nid oes gan ddatblygwyr estron unrhyw gydymdeimlad â'r iaith.<br><br>Roedd Cynghorwyr yn cefnogi'r egwyddor y dylid taro balans rhwng yr angen am ddatblygiad â'r awydd I amddiffyn y ffordd o fyw yn lleol a'r iaith Gymraeg.<br><br>Croesewir yr angen I ddatblygwyr ymgynghori gyda chymunedau lleol. |
| 8a | Dylid rhoi ystyriaeth I effeithiolrwydd y system sgorio sydd yn y CCA.<br><br>Mae'r fethodoleg ar hyn o bryd yn arwain y cynigydd I adnabod mesurau lliniaru lle bod effaith anffafriol yn cael ei adnabod ac yn annog adnabod mesurau cryfhau lle bod modd adnabod effeithiau llesol.<br><br>Gellid ystyried bod y system sgorio'n rhy syml. | | |
| 8b | Wrth ystyried ARDALOEDD dylai'r canllaw ystyried ARDALOEDD ehangach na dim ond y pentref neu'r dre ble mae'r datblygiad yn digwydd.<br><br>Hefyd dylai hyn fod yng nghyd destun beth sydd wedi digwydd yn yr ARDAL (eang) honno o fewn dyweder y pum mlynedd ddiwethaf, | | |

<table>
<tr>
<td></td>
<td>Ar hyn o bryd mae’r CCA o fewn ffiniau cyfyng iawn o ran lle ac amser.</td>
<td rowspan="3">Rhoddwyd sylw I’r uchod wrth baratoi’r Canllaw Cynllunio Atodol newydd drafft.</td>
<td rowspan="3">Roedd y Cynghorwyr o’r farn bod y balans a nodir yn y canllaw yn deg a rhesymol.<br><br>Er 2011, cyflwynwyd 75 o Ddatganiadau Cymunedol ac Ieithyddol gan ddatblygwyr I gefnogi eu ceisiadau cynllunio, ac nid oedd yr un o’r datganiadau yn dod I’r casgliad y byddai’r datblygiad dan sylw yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg<br><br>Fodd bynnag, mae asesiadau effaith ieithyddol gan yngynghoriaeth iaith Hanfod o rai o’r datblygiadau hyn yn dod I gasgliad cwbl wahanol, sef y byddent yn debygol o niweidio sefyllfa’r Gymraeg.<br><br>Mae’r dystiolaeth yn dangos nad yw’r Datganiad yn ddigonol ac nad yw’n cyflawni ei waith yn briodol.<br><br>Awgrymiadau I wella:<br><br>Gwella’r system sgorio<br><br>Dylai’r canllaw ystyried ardaloedd ehangach na dim ond y pentref neu’r dre ble mae’r datblygiad yn digwydd, hyd at lefel Arfon, Meirion, Dwyfor.</td>
</tr>
<tr>
<td>8c</td>
<td>Sonir yn aml yn y Canllaw am ardal y datblygiad ac mae hynny’n cael ei ddiffinio fel arfer fel ardal agos iawn ar y datblygiad.<br><br>Rhaid cofio bod datblygiadau yn aml yn effeithio ar y sir gyfan neu ar ran helaeth ohoni.<br><br>Felly, ni ddylid ystyried fod pob datblygiad yn ynys fechan ynddo’I hun.<br><br>Fe ddylai unrhyw ddatblygiad gael ei wneud yng nghyd destun datblygiadau diweddar eraill a wnaethpwyd mewn ardal (maint Dwyfor, Arfon neu Meirionnydd) h.y. yr ystyriaeth gronnol.<br><br>Fe ddylai’r ‘diweddar’ yn yr achos yma fod o leiaf 5 mlynedd – y bum mlynedd ddiwethaf.<br><br>Heb gymryd hyn I ystyriaeth ni fyddwn ond yn ychwanegu problem ar ben problem.</td>
</tr>
<tr>
<td>8ch</td>
<td>Yr unig sylw ychwanegol sydd gan y Cyngor yw bod angen pwysleisio pwysigrwydd y Gymraeg yng Ngwynedd, yn arbennig y gymuned hon o gofio am y datblygiadau diweddaraf yn Abersoch a fydd yn ail-gartrefi I brynwyr o dros y ffîn oherwydd eu prisiau uchel sydd tu hwnt I drigolion lleol.<br><br>Nid oes gan ddatblygwyr estron unrhyw gydymdeimlad â’r iaith.</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr><td>8d</td><td>Dylid cryfhau’r amodau ynglŷn â defnydd o’r iaith Gymraeg ynglŷn ag arwyddion ac yn y blaen; a hefyd rhwystro newid hen enwau Cymraeg I Saesneg.</td><td rowspan="4"></td><td rowspan="4">Dylai hyn fod yng nghyd destun beth sydd wedi digwydd yn yr ardal (eang) honno o fewn dyweder y 5 mlynedd ddiwethaf o leiaf.<br><br>Dylid cryfhau’r amodau ynglŷn â defnydd o’r iaith Gymraeg ynglŷn ag arwyddion ac yn y blaen; a hefyd rhwystro newid hen enwau Cymraeg I Saesneg.<br><br>Dylid rhoi ystyriaeth I bwy sy’n llenwi’r bwlch (tŷ gwag) wrth I bobl leol Cymraeg eu hiaith brynu tai newydd.<br><br>Dylid nodi ar ddechrau’r CCA newydd bwysigrwydd allweddol Gwynedd fel cadarnle cryfaf y Gymraeg a’r angen am bolisïau penodol i warchod ei nodweddion unigryw ac I sicrhau dyfodol cynaliadwy I’r iaith.<br><br>Dylid nodi yn y CCA newydd amcanion strategaethau perthnasol I gryfhau’r iaith , gan gynnwys<br>- Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017 sy’n amcanu at sicrhau cynnydd o 5% yng nghanran y boblogaeth sy’n gallu siarad Cymraeg erbyn 2021.<br>- Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn yn amcanu at gynyddu nifer y cymunedau sydd â</td></tr>
<tr><td>8dd</td><td>Gan fod cryn symudoledd o fewn Gwynedd mae terfynau y cynghorau cymuned presennol yn rhy fach I fesur effaith, a dylid bod yn mesur effaith mewn dyfnder nid fesul symudiad un teulu I dŷ, heb edrych pwy sy’n llenwi’r bwlch ar eu holau mewn lle arall ayyb.</td></tr>
<tr><td>8e</td><td>Roedd Cynghorwyr yn cefnogi’r egwyddor y dylid taro balans rhwng yr angen am ddatblygiad â’r awydd I amddiffyn y ffordd o fyw yn lleol a’r iaith Gymraeg. Croesewir yr angen I ddatblygwyr ymgynghori gyda chymunedau lleol. Roedd y Cynghorwyr o’r farn bod y balans a nodir yn y canllaw yn deg a rhesymol.</td></tr>
<tr><td>8f</td><td>Gwerthfawrogwn y cyfle I gyfranogi yn yr adolygiad o’r Canllaw Cynllunio Atodol – Cynllunio a’r Iaith Gymraeg, a hyderwn y bydd ein sylwadau yn cyfrannu I’w gryfhau a thrwy hynny ei wneud yn fwy effeithiol yn ei amcan o ddiogelu’r Gymraeg.<br><br>Hoffem yn y lle cyntaf nodi’r hyn y credwn y dylai’r Canllaw Cynllunio Atodol newydd ei bwysleisio ar y cychwyn un, sef:<br>• Pwysigrwydd allweddol Gwynedd fel cadarnle cryfaf y Gymraeg a’r angen am bolisïau penodol I warchod ei nodweddion unigryw ac I sicrhau dyfodol cynaliadwy I’r iaith.<br>• Amcanion strategaethau perthnasol I gryfhau’r iaith , gan gynnwys</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | - Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017 sy'n amcanu at sicrhau cynnydd o 5% yng nghanran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg erbyn 2021.<br>- Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn yn amcanu at gynyddu nifer y cymunedau sydd â 70% a throsodd o'u poblogaeth yn medru'r Gymraeg.<br>- Llywodraeth Cymru yn anelu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg I filiwn erbyn 2050.<br>- Nodyn Cyngor Technegol Cymru 20 yn seiliedig ar ddarpariaethau iaith Deddf Gynllunio (Cymru) 2015.<br>• Yr angen I bob datblygiad arfaethedig gael ei arfarnu yn ôl pa mor gydnaws yw â'r amcanion uchod. Dylid sicrhau felly fod pob datblygiad dan sylw nail ai'n cyfrannu'n gadarnhaol at wireddu'r amcanion neu, o leiaf, na fyddai ar unrhyw gyfrif yn llesteirio'r ymdrechion I'w cyflawni.<br><br>O ran y cwestiynau penodol ar y ffurflen, ni ellir, yn ein barn ni, ymateb yn ystyrlon iddynt yn yr adolygiad o'r Canllaw Cynllunio Atodol – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg cyfredol heb wybod I ba raddau y mae'r canllaw wedi llwyddo ers pan ddaeth yn weithredol yn 2009. Ni ellir ei adolygu cyn cynnal asesiad ieithyddol o'r datblygiadau o 2009 hyd heddiw, er mwyn canfod a yw'r fersiwn cyfredol o'r canllaw wedi cyfrannu I ddiogelu, hyrwyddo ac atgyfnerthu'r Gymraeg. Dylid fod wedi gwneud asesiad o'r fath cyn adolygu'r Canllaw. | | 70% a throsodd o'u poblogaeth yn medru'r Gymraeg.<br>- Llywodraeth Cymru yn anelu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg I filiwn erbyn 2050.<br>- Nodyn Cyngor Technegol Cymru 20 yn seiliedig ar ddarpariaethau iaith Deddf Gynllunio (Cymru) 2015.<br><br>Yr angen I bob datblygiad arfaethedig gael ei arfarnu yn ôl pa mor gydnaws yw â'r amcanion uchod. Dylid sicrhau felly fod pob datblygiad dan sylw naill ai'n cyfrannu'n gadarnhaol at wireddu'r amcanion neu, o leiaf, na fyddai ar unrhyw gyfrif yn llesteirio'r ymdrechion I'w cyflawni<br><br>O ran y cwestiynau penodol ar y ffurflen, ni ellir, yn ein barn ni, ymateb yn ystyrlon iddynt yn yr adolygiad o'r Canllaw Cynllunio Atodol – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg cyfredol heb wybod I ba raddau y mae'r canllaw wedi llwyddo ers pan ddaeth yn weithredol yn 2009.<br><br>Cyn bwrw ymlaen, dylid cynnal asesiad ieithyddol o'r datblygiadau o 2009 hyd heddiw, er mwyn canfod a yw'r fersiwn cyfredol o'r canllaw wedi cyfrannu I ddiogelu, hyrwyddo ac atgyfnerthu'r Gymraeg. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Er 2011, cyflwynwyd 75 o Ddatganiadau Cymunedol ac Ieithyddol gan ddatblygwyr I gefnogi eu ceisiadau cynllunio, ac nid oedd yr un o'r datganiadau yn dod I'r casgliad y byddai'r datblygiad dan sylw yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg. Arfarnwyd y datganiadau hyn gan yr Awdurdod Cynllunio, a chafodd pob un ei gymeradwyo. Cyfeiriwn yn benodol at ddau ddatblygiad arfaethedig, sef y cais cynllunio I godi 69 o dai yng Nghoetmor (cymdogaeth o oddeutu 140 o dai), Bethesda, a'r cais cynllunio I godi 366 o dai ym Mhen-y-ffridd, Penrhosgarnedd, Bangor. Yn y nail achos a'r llall, roedd y Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol o'r farn na fyddai'r Gymraeg yn cael ei niweidio, a chawsant eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio. Fodd bynnag, mae asesiadau effaith ieithyddol gan yngynghoriaeth iaith Hanfod o'r datblygiadau hyn yn dod I gasgliad cwbl wahanol, sef y byddent yn debygol o niweidio sefyllfa'r Gymraeg.<br><br>Mae'n amlwg bod sefyllfa o'r fath yn gwbl anfoddhaol, ac y dylid gwneud newidiadau sylfaenol I'r Canllaw cyfredol. Rydym yn argymell y newidiadau canlynol:<br><br>1 Rhoi'r gorau I ddefnyddio Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol, a'I gwneud yn ofynnol I ddatblygwyr ddarparu Asesiad Effaith Ieithyddol yn yr achosion lle bo Datganiad yn ofynnol ar hyn o bryd. Mae'r dystiolaeth y cyfeirir ati uchod yn dangos nad yw'r | | Rhoi'r gorau I ddefnyddio Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol, a'I gwneud yn ofynnol I ddatblygwyr ddarparu Asesiad Effaith Ieithyddol yn yr achosion lle bo Datganiad yn ofynnol ar hyn o bryd.<br><br>Ei bod yn ofynnol I Asesiad Effaith Ieithyddol gael ei gynhyrchu gan rai sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth o'r maes.<br><br>Ei bod yn ofynnol I'r Awdurdod Cynllunio sicrhau bod yr Asesiad Effaith Ieithyddol yn cael ei arfarnu gan rai sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth o'r maes.<br><br>Bod ymgynghori gyda chynghorau cymuned, mentrau iaith a mudiadau iaith yn rhan allweddol o Asesiad Effaith Ieithyddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Datganiad yn ddigonol ac nad yw'n cyflawni ei waith yn briodol.<br><br>2 Ei bod yn ofynnol I Asesiad Effaith Ieithyddol gael ei gynhyrchu gan rai sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth o'r maes.<br><br>3 Ei bod yn ofynnol I'r Awdurdod Cynllunio sicrhau bod yr Asesiad Effaith Ieithyddol yn cael ei arfarnu gan rai sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth o'r maes.<br><br>4 Bod ymgynghori gyda chynghorau cymuned, mentrau iaith a mudiadau iaith yn rhan allweddol o Asesiad Effaith Ieithyddol. | | |